
# Cymeriadau Difyr



| Llyfr: | **Sara Sero (0)** |
|---|---|
| Adnoddau: | • Lluniau o goeden a lluniau o afalau ar gyfer eu printio - *gweler y ddogfen 'Sara Sero – lluniau'.*<br>• Lluniau o gymeriadau'r gyfres 'Cymeriadau Difyr' - *gweler y ddogfen 'Cymeriadau Difyr Maint A3'.* |
| Camau: | Cam 1 - Gosodwch afalau ar y goeden (rhwng 1 a 10). Cyfrwch yr afalau ar y cyd.<br><br>Cam 2 – Gan ddefnyddio'r lluniau o gymeriadau'r gyfres 'Cymeriadau Difyr', dywedwch a dangoswch wrth y disgyblion fod cymeriadau'r llyfrau yn casglu'r afalau o'r goeden. Tynnwch yr afalau o'r goeden a holwch sawl un sydd ar ôl, e.e. 'Mae 6 afal ar y goeden. Dyma Poli Pump yn casglu 5 afal o'r goeden ac Alun Un yn casglu 1 afal o'r goeden. Sawl afal sydd ar ôl?' Ateb: 0.<br><br>Cam 3 - Ailadroddwch yr uchod gyda nifer amrywiol o afalau ar y goeden a chymeriadau amrywiol yn casglu'r afalau o'r goeden. |
| Cwestiynu: | • Sawl afal sydd ar y goeden?<br>• Allwch chi gyfri'r afalau?<br>• Sawl afal sydd ar ôl? |
| Beth nesaf? | **Lle mae 0?**<br>Cymharwch setiau o luniau – pa rai sy'n dangos 0? - *gweler y ddogfen 'Sara Sero – lluniau'.* |



Peniarth .cymru
adnodd
yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru
supporting the Curriculum for Wales